

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (ABER-
ARTH, CEREDIGION) (GWAHARDD
CERBYDAU DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, yn Aber-arth, Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 yn Aber-arth sy'n ymestyn o bwynt 500 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4577 hyd at bwynt 400 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

Caiff cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd eu dargyfeirio o Aberaeron ar yr A482 tua'r de-ddwyrain i Lanbedr Pont Steffan, yr A485 tua'r gogledd-ddwyrain i Dregaron a'r A485 tua'r gogledd drwy Ledrod a Llanilar i ailymuno â'r A487 yn Llanfarian: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 5 Gorffennaf 2021. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) o 5 – 12 Gorffennaf 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (ABERARTH,
CEREDIGION) (TEMPORARY PROHIBITION
OF VEHICLES) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road at Aberarth, Ceredigion.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A487 trunk road at Aberarth that extends from a point 500 metres south-west of the centre-point of its junction with the B4577 to a point 400 metres north-east of the centre-point of that junction.


Northbound vehicles will be diverted from Aberaeron via the south-eastbound A482 to Lampeter north-eastbound A485 to Tregaron and northbound A485 through Lledrod and Llanilar to rejoin the A487 at Llanfarian: vice versa for southbound vehicles.

The Order comes into force on 5 July 2021. The temporary prohibition is expected to operate overnight (19:00 – 06:00 hours) from 5 – 12 July 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government